

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Gwenfyl Jones (Llansannan) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei brawd, Ifor. Cyflwynwn y teulu oll i ofal Duw gan hyderu y bydd yn gwarchod drostynt yn ystod y dyddiau nesaf ac y cânt adnabod flas y tangnefedd na wŷyr y byd amdano.
- Mae'n dda cael adrodd bod Elizabeth Davies (Llanfair) wedi cael dod adref o'r ysbyty a'i bod yn cryfhau bob dydd yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen. Anfonwn ein cofion ati gan ddymuno gwellhad llwyr a buan iddi.
- Parhawn i gofio hefyd am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy); Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy); a Mrs Elizabeth Hughes (Richmond House). Yn yr un modd, cofiwn hefyd am Mr R. J. Davies yn Ysbyty Llandudno. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw.
- Llongyfarchiadau i Gareth a Lowri Evans (Tanyfron) ar enedigaeth merch fach, Lliwen. Dymunwn fendith Duw ar y teulu bach.
- Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Gwenfyl Williams (Tanyfron) fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn go oed ddydd Mercher nesaf. Diolchwn i Dduw amdani, a dymunwn iddi nerth ac iechyd.

I ddo

- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Ebrill 7fed – 12fed ac Ebrill 12fed- 17eg. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: 0871 474 0009. **Mae'n fwriad gan rai o'r Ofalaeth fynd i'r oedfa yno am 6.30 nos Fercher, Ebrill 16eg.** Beth am ddo â llond car hefo chi? Neu, os hoffech gyfarfod eraill o'r Ofalaeth yno, dewch i'r fynedfa erbyn 6.00.
- **OEDFA GYMUN I'R FRO AR FORE'R GROGLITH** ym Mheniel am 10.30.
- **OEDFA'R GROGLITH** yng Nghefn Berain am 7.00 gyda'r Parch Tom Evans Williams yn pregethu.
- **LLANW** – Gŵyl Gristnogol i ddathlu'r atgyfodiad ar gyfer y teulu cyfan yn Ninbych y Pysgod, Sir Benfro rhwng Ebrill 21ain-25ain. Am fwy o wybodaeth, ewch i'r wefan: www.llanw.org
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yng Nghapel Ebeneser, Dolgellau LL40 1LN dydd Mercher, Ebrill 30ain. Yng nghyfarfod y prynhawn am 2.00, bydd Anna Jane Evans (Cymorth Cristnogol) yn annerch, ac yna yng nghyfarfod yr hwyr am 5.30, ceir anerchiad gan Beryl Vaughan, Llanerfyl. Mae gan ysgrifennydd eich eglwys (neu Mair) fwy o gyfarwyddiadau ynglŷn â pharcio a chyfleusterau bwyd ond fe ddarperir paned o de yn Festri Capel Ebeneser wedi oedfa'r prynhawn. Croeso cynnes i bawb.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 6^{ed} Ebrill 2014

Darlleniad y Dydd

Colosiaid 1:15-20

(BCND tud.220 / BCN: tud.202)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso i'r oedfaon heddiw ac i'r cyfleon arbennig sydd gennym i ddathlu'r Pasg hefo'n gilydd dros yr wythnosau nesaf. Gweddïwn am y nerth i fanteisio ar y cyfleon hyn ac i ddod i ystyried o ddifri beth a ddigwyddodd ar Galfaria ac ar fore'r trydydd dydd!

O edrych ymlaen ymhellach i ddechrau mis Mai, sylweddolwn fod Sasiwn y Gogledd yn cael ei chynnal yn Llansannan ar y 6ed a'r 7ed o Fai a hynny dros hanner can mlynedd a mwy yn ôl ers iddi ymweld ddiwethaf, sef yn 1963. Roedd fy nhad yn weinidog yma ar y pryd a ninnau newydd symud o Bontrhydyfen. Yn llyfr cofnodion trefnu'r bwyd a llety mae sawl enw cyfarwydd. 23 o gynrychiolwyr – y rhan fwyaf yn wragedd – ac yn cynnwys Mr Alford Pritchard, yr heddwes a oedd yn byw yn Llanfair. Gobeithio na fydd angen heddwes arnom ni!

Yn y cyfarfod cyntaf ychwanegwyd enwau Miss Alice Jones, Bryn Bugad, Miss Mair Davies, Wenallt a Mrs Robert Roberts Plas Aled. Pasiwyd yn unfrydol nad oeddent am wahodd 'Caterers' i ddarparu'r bwyd a phenodwyd Mrs Robert Roberts yn oruchwyliwr y gwaith, a mam yn drysoryddes. Yn yr ail gyfarfod, diddorol yw sylwi ar enwau'r cartrefi a oedd wedi cynnig llety: Tan Gyrt, Wenallt Uchaf, Bod Alaw, Melai, Cynant Uchaf, Allt Ddu Uchaf, Mostyn Isa, Plas Newydd, Fforest, Llwyn Onn, Ty'n 'Rardd, i enwi dim ond rhai.

I ginio roedd 'Cold ham a Beef' i'w weini, tarten fale a chwstard! Yna 'Cold ham a tongue' y diwrnod wedyn a trifle!

Yng ngefn y llyfr cofnodion ceir rhestr fanwl o bwy arhosodd yn lle. Llauer i 'Barchedig' o Fôn i Coventry, a nifer fawr o gynrychiolwyr. Sut groeso gafwyd tybed wedi'r holl baratoi? Does dim cofnod ond ardderchog iawn yn siŵr o'ch adnabod. Diolch i bawb a fydd yn gweithio i roi croeso tebyg y tro hwn a gobeithio y bydd bendith Duw ar bawb a ddaw.

Gyrru'r disgyblion ymlaen i baratoi'r lle ar gyfer dathlu Gŵyl y Pasg a wnaeth Iesu y Pasg hwnnw yn Jerwsalem. Paratoi'r oruwchystafell. Roedd wedi gwneud trefniadau manwl ac yn gallu rhoi cyfarwyddiadau manwl i'w ddisgyblion. Roedd bara a gwin a'r swper yn barod. Ond roedd mwy na hynny wrth gwrs. Roedd Ef ei hun wedi cael ei baratoi ar gyfer y Pasg. "Dyma Oen Duw"! O dragwyddoldeb, roedd Iesu yn dod i'w awr. Pob llythyren o lyfr cofnodion y Drindod wedi eu selio a'u cadarnhau, a'r Cyfamod Newydd yn yr awr honno yn cael ei wireddu'n llawn!

Diolchwn iddo, addolwn Ef eto heddiw mewn llawenydd a gostyngeddwrwydd – a rhyfeddod!

Darlleniad Wythnos Nesaf

Salm 122 (BCND tud.565 / BCN: tud.516)

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.
- Llun • Derbynnir **Cyweithiau'r Ysgolion Sul** ar y thema 'Dathliadau'r Beibl a'r Eglwys', yng Nghapel Hyfrydle, Betws yn Rhos, rhwng 7 ac 8 o'r gloch.
- Mawrth • **Adnabod – Grŵp Celfyn** yn cyfarfod yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- **Cyfarfod Cymdeithasol Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn Festri Capel Mawr, Dinbych am 7.30. Y wraig wadd fydd y Parch. Nan Wyn Powell-Davies. Croeso cynnes i bawb.
- Mercher • **Blas a Bywyd i ddathlu'r Pasg** yng Nghefn Meiriadog. Cawn bryd o fwyd hefo'n gilydd am 7.30 ac yna cyfle i addoli, gwrandao a myfyrio ar neges fawr y Pasg.
- Iau • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener • Bydd **C.I.C.** yn mynd i noson ieuencid Y Pasg yn Ysgol y Berwyn, Y Bala fydd yn dechrau am 6.30. Bwriedir cychwyn o faes parcio'r capel yn Llansannan am 5.45 gan ddychwelyd tua 9.20. Enwau i Rhodri cyn gynted â phosib, os gwelwch yn dda, er mwyn cael trefnu trafndiaeth. Cofiwch ddod â ffurflen ganiatâd hefo chi.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac fe fydd yr Ysgol Sul yn dilyn am 11.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac fe gynhelir Cyfarfod Gweddi yno am 2.00.
- Mawrth Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00, a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd a'r oedolion am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 10.45. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Aneurin yn arwain oedfa yno am 10.45.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.